

DOLEN Y TAB 106

13-14 Mai 2022

Oedfa Fore Sul 15 Mai am 11

Gwasanaeth yng ngofal John Llew, Eleri Mai a'r Twmiaid i ddathlu Wythnos Cymorth Cristnogol.

Bydd croeso i bawb ymuno am banded a sgwrs yn y Ganolfan yn syth wedi'r oedfa.

YR OEDFAON NESAF

Mai

22 Yng nghwmni Lyn West a'r Parchedig Gethin Rhys.

29 Geraint Rees

Mehefin

5 Dafydd Iwan

Hefyd ddydd Sul 15 Mai

12:00 Oedfa Radio Cymru

Sul Cymorth Cristnogol – gwasanaeth dan ofal staff a chefnogwyr Cymorth Cristnogol.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 Dechrau Canu Dechrau Canmol

Ryland Teifi yn cwrrd ag arweinydd Cymorth Cristnogol yng Nghymru, Mari McNeill, i glywed am waith dyngarol y mudiad.

E-fwletin Cristnogaeth 21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf fel eglwys i Wendy Reynolds a'r teulu i gyd ar golli mam, mam-gu a hen fam-gu yn ddiweddar wedi cystudd hir.

Brysia Wella

Estynnwn pob dymuniad da i Gary Samuel sydd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Deallwn ei fod mewn hwyliau da.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 17 Mai. Os oes un rhyw fater y carech ei godi, anfonwch air at Gwilym Huws: gehpengwern@yahoo.co.uk/ 01443 225205 neu 07710 237327.

Hefyd anfonwch neges i'r un man os ydych am dderbyn copi o gofnodion cyfarfodydd y Bwrdd.

Wynebau Cyfarwydd

Os na wnaethoch wyllo *Dechrau Canu Dechrau Canmol* nos Sul, yna byddwch wedi colli rhifyn arbennig iawn ar y thema Dementia. Ymhlith y rhai gyfrannodd i'r rhaglen roedd Emlyn Davies sy'n arwain ymgyrch eglwysi dementia-gyfeillgar Undeb yr Annibynwyr gaiff ei lansio'n swyddogol yma yn y capel am 7.30 nos Fercher 25 Mai. Mae modd i chi wyllo'r rhaglen ar wasanaeth dal i fyny *Clic S4C* neu *BBC iPlayer* a sylwi ar wynebau cyfarwydd ambell aelod arall o'r Tabernacl.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 15-21 Mai

Bydd Apêl WCC eleni yn casglu arian i helpu Zimbabwe, sy'n dioddef newyn difrifol yn sgil newid hinsawdd. Ar ben hynny, mae prisiau bwyd wedi codi'n aruthrol yno oherwydd Rhyfel Putin yn Wcráin. Byddwn yn defnyddio'r dulliau a fabwysiadwyd ar ddechrau'r pandemig yn 2020 (sieciau a throsglwyddiadau banc) ar gyfer ein casgliad ni, ond bydd amlenni yng nghyntedd y capel i'r rhai sy'n dymuno eu defnyddio.

Bydd modd cyfrannu drwy gydol mis Mai, a bydd Casgliad Wcráin yn dod i ben dros dro, ac yn ailddechrau ym mis Mehefin.

Sieciau: yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf., gan nodi Wythnos Cymorth Cristnogol, at:

Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

Trosglwyddiad Banc: gyda'ch enw a nodyn yn enwi Wythnos Cymorth Cristnogol

Cod Didoli: 30 - 96 - 72
Rhif Cyfrif: 03607499

**Gyda diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus
Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol**



Pigion o'r Wasg

Rhifyn 5 Mai o'r *Tyst* sydd yn derbyn sylw gennym yr wythnos hon. Awdur y golofn wythnosol 'Barn Annibynnol' y rhifyn hwn oedd Geraint Rees a chwestiwn rhethregol sydd ganddo yn deitl i'w gyfraniad, sef 'O ble daw ein hoptimistiaeth?' Gweler [Y Tyst \(annibynwyr.org\)](http://Y Tyst (annibynwyr.org)). Yn y rhan agoriadol mae'n cydnabod pwysigrwydd cofiant Elizabeth Wuntzel, *Prozac Nation*, wrth dynnu sylw at yr heriau a wynebir gan ganran o'r boblogaeth sy'n dioddef iselder ysbryd.

Er i 30 mlynedd basio ers cyhoeddi'r gyfrol, a bod gwell dealltwriaeth erbyn hyn gan wyddonwyr am gyffuriau sy'n medru lleihau iselder, rydym yn byw yng nghanol pandemig o'r aflwydd ar hyn o bryd. Mae canran o'r achosion hyn yn deillio o ffactorau allanol megis y rhyfel erchyll yn Wcráin, Covid, costau byw, digartrefedd a thriniaeth annynol Llywodraeth Prydain o ffoaduriaid. Aiff yn ei flaen i ddadlau petai'r hil ddynol yn dewis dilyn gwerthoedd yr Iesu 'o gyfiawnder ac onestrwydd mewn llywodraeth gan roi i'r tlawd a'r anghenus yn gyntaf, condemnio'r cyfoethogion barus, a rhannu adnoddau yn ôl angen. Croesawu'r ffoadur – ond hefyd gweithio i rannu cyfoeth y byd i leihau'r angen i bobl deithio ar draws cyfandiroedd i ddianc rhag tlodi' byddai'n cyfrannu'n aruthrol at leihau problemau seicolegol cynifer o drigolion. Mae hyn yn arwain at neges fwy gobeithiol am fyd gwell 'lle gall cenhedloedd fyw mewn heddwch, lle bydd cymydog yn gofalu am gymydog, a'r ifanc yn sicr o do uwch eu pennau' trwy dderbyn cenadwri'r Iesu i garu ein gilydd.

Yna mae'n cloi'r ysgrif gan awgrymu 'Efallai ei bod hi'n amser i'n ffocws symud yn fwy amlwg o gynnal oedfa neu gynnal defod neu draddodiad, a gosod ein stondin yn eglur mai gwaith yr eglwys yw cynnal pobl. Yn y gweithredu hwnnw mae cynhaliaeth i ni'n hunain. Ac yn y gweithredu hwnnw, gallwn gynnal ein cymunedau'.

CAIS AM GACENNAU

Byddwn yn cynnig paned a chacen ar ddiwedd Cwrdd Chwarter Cyfundeb Dwyrain Morgannwg a gynhelir yn y Capel nos Fercher 25 Mai. Os ydych chi'n fodlon paratoi cacen, neu'n barod i gynnig help llaw mewn unrhyw fodd, yna cysylltwch â mi erbyn dydd Gwener 20 Mai.

DIOLCH YN FAWR

Gaynor Evans

01443 281388

gaynor_415@hotmail.com



DementiaUK
Helping families face dementia

BORE COFFI

10-12, Dydd Mawrth 17 Mai
Y Ganolfan

Dewch yn llu i godi arian i nyrsus Dementia UK er cof am y diweddar Mr Holbrook.



BRECWAST MAWR

Y Ganolfan,
Capel Tabernacl



10.00-11.30

BABI TWM

Dydd Llun 16eg o Fai



Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i plant/wyrion/wyresau

Cyfraniad i Cymorth Cristnogol ar y diwrnod



Cymanfa Ganu
Undebol Dyffryn Aberdâr
Capel Green St.,
Aberdâr.
(ar bwys y llyfrgell/by the library)

Sul, Mai 15fed, 2022
Am 6.30 p.m.

Arweinydd: Gwyn Morgan
Organydd: Marc Jon Williams
Llywydd: Rhuanedd Richards
BBC

Croeso i bawb.
Lluniaeth ysgafn yn dilyn y Gymanfa.



TWMIAID A TWMIAID BACH

Dydd Sul 15fed a 22ain o Fai
5.00 - 6.30

Paratoi ffilm ar gyfer Prosiect Digidol Denman

